

Manylion personol a chyfrinachedd

Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

- Ydw
- Nac ydw

Os ydych chi wedi ateb Ydw i'r cwestiwn hwn, nodwch pam

Gwybodaeth am Gyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra <<http://www.gov.uk/defra>> . Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (ee cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Os byddwch yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymïadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad am ofyn am gyfrinachedd ar gyfer eich ymateb cyfan neu ran ohono yn ein helpu i gydbwysu'r ymrwymïadau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw ymrwymïad o ran cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd yn eich ymateb ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.

Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol.

Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag “Egwyddorion Ymgynghori” Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance> <<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principlesguidance>> .

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Pysgodfa arfaethedig ar gyfer Cregyn y Brenin

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Neu e-bostio: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Beth yw eich enw?

Enw

Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

E-bost

Beth yw eich sefydliad?

Sefydliad

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich buddiant yn yr FMP Cregyn y Brenin

(Rhaid ateb hwn)

Dewiswch un eitem yn unig:

- *Dyframaethu*
- *Unigolyn*
- *Grŵp Buddiant*
- *Prosesu*
- *Cynhyrchydd/Sector Dal*
- *Pysgota Môr Hamdden*
- *Gwyddoniaeth/Ymchwil*

- *Cyflenwr/Adwerthwr*
- *Sector y Diwydiant Morol*
- *Arall*

Os arall, rhowch fanylion:

Cwestiynau am Gynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â Chynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin sydd ar gael yn yr adran 'dogfennau cysylltiedig' ar yr hafan.

1 Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o ddatblygu'r FMP Cregyn y Brenin?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Datblygu'r FMP** yn yr FMP ac yn **Atodiad 3: Ymgysylltu â rhanddeiliaid** ac **Atodiad 5: Y cyd-destun deddfwriaethol a llywodraethu**.

Oes

Nac oes

Os oes, rhowch eich sylwadau yma

2 Beth yw eich barn ar y dystiolaeth a gyflwynwyd am gyflwr presennol stociau cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr, ac a allwch ddarparu unrhyw dystiolaeth arall sy'n cefnogi neu'n wahanol i'n dystiolaeth ni?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Statws y bysgodfa ar hyn o bryd** yn yr FMP ac yn **Atodiad 1: Datganiad Tystiolaeth**

Sylwadau a thystiolaeth

3 Beth yw eich barn ar y bylchau yn y dystiolaeth a nodwyd yn yr FMP?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Gwella'r sylfaen dystiolaeth** yng nghrynodeb gweithredol yr FMP ac yn y **tabl Amcanion rheoli ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 2: Cynllun Tystiolaeth ac Ymchwil**

Sylwadau ar fylchau yn y dystiolaeth

4 Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau yn y dystiolaeth?

Mae manylion ar gael yn yr adrannau **Statws y bysgodfa ar hyn o bryd** a **Gwella'r sylfaen dystiolaeth** yng nghrynodeb gweithredol yr FMP ac yn **Nhabl 1: Amcanion rheoli ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 1: Datganiad tystiolaeth** ac **Atodiad 2: Cynllun Tystiolaeth ac Ymchwil**

- Ydw
- Nac ydw

Os nad ydych chi, esboniwch pam

5 Pa rôl all cau ar sail ardaloedd ei chwarae o ran cyflawni cynaliadwyedd stociau a nodau'r FMP yn effeithiol o dan y fframwaith rheoli newydd arfaethedig (o ran ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol)?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Mesurau rheoli cychwynnol** yng nghrynodeb gweithredol yr FMP ac yn y **tabl Amcanion rheoli ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 1: Datganiad tystiolaeth**.

Sylwadau ar gau ar sail ardaloedd

6 A oes ardaloedd stociau penodol lle gall cau fod yn fuddiol i nodau'r FMP? Darparwch unrhyw dystiolaeth sydd gennych sy'n cefnogi hyn.

Mae manylion ar gael yn yr adran **Rheoli'r Bysgodfa** yn yr FMP ac yn **Atodiad 6: Mesurau rheoli cyfredol**

Sylwadau ar ardaloedd stociau

7 Ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i gryfhau'r mesurau sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn addas i'r diben er mwyn cael stociau cynaliadwy stoc a chyflawni nodau'r FMP o dan

y fframwaith rheoli newydd arfaethedig (yng nghyd-destun ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol)?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Statws y bysgodfa ar hyn o bryd a Strategaeth rheoli'r bysgodfa** yn yr FMP ac yn y **tabl Amcanion rheoli ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 6: Mesurau rheoli cyfredol**.

Sylwadau ar gryfhau mesurau

8 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i archwilio a datblygu dull rheoli allbwn a/neu ddull rheoli mewnbwn sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, ac a oes manteision ac anfanteision posibl (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol) y dylid eu hystyried yn gynnar yn y broses?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Strategaeth rheoli'r bysgodfa** yn yr FMP.

Sylwadau ar ddulliau rheoli allbwn/mewnbwn

9 A oes unrhyw fesurau technegol ychwanegol y dylid eu hystyried i ddiogelu stociau cregyn y brenin a'r ecosystem ehangach, a pham?

Mae manylion ar gael yn yr adran **Strategaeth rheoli'r bysgodfa** yn yr FMP ac yn **Atodiad 6: Mesurau rheoli cyfredol**.

Sylwadau ar fesurau technegol ychwanegol

10 A oes unrhyw fesurau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu'n gynnar yn unol â'r dull rhagofalus, a pham?

Mae manylion ar gael yn **Atodiad 3: Adroddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** ac **Atodiad 5: Y cyd-destun deddfwriaethol a llywodraethu** ac yn yr adran **Rhoi ar waith** yn yr FMP.

Sylwadau ar fesurau a'r dull rhagofalus

11 Ydych chi'n cytuno mai sefydlu dull cydreoli yw'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn y dyfodol, a pham? Yn eich barn chi, pa rôl gallech chi/eich sefydliad ei chwarae i gefnogi dull cydreoli?

Mae manylion ar gael yn yr adran **cyd-reoli** yn y ddogfen ymgynghori, ac yn yr adran **Fframwaith rheoli: gweithio mewn partneriaeth** yn yr FMP.

Ydw

Nac ydw

Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

12 Sut hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r cynllun ac o reoli'r bysgodfa cregyn y brenin yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol?

Mae manylion ar gael yn yr adrannau **Rhoi ar waith** a **Strategaeth rheoli'r bysgodfa: gweithio mewn partneriaeth** yn yr FMP. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 5: Y cyd-destun deddfwriaethol a llywodraethu**.

Sylwadau ar eich cyfranogiad

13 A oes unrhyw gysylltiadau pwysig â physgodfeydd eraill y dylem eu hystyried wrth gwblhau'r FMP hwn neu yn ystod y broses o'i roi ar waith?

Cysylltiadau â physgodfeydd eraill

Adroddiad Amgylcheddol Cynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud ag Adroddiad Amgylcheddol Cynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin, sydd ar gael yn yr adran 'dogfennau cysylltiedig' ar yr hafan.

A oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallem ei hystyried i lywio ein llinell sylfaen amgylcheddol?

Mae adran 3 yn darparu crynodeb o gyflwr presennol amgylchedd morol y DU ar gyfer pob un o'r materion amgylcheddol sy'n cael eu sgrinio yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn, a lle bo hynny'n berthnasol, eu disgrifyddion cysylltiedig yn Strategaeth Forol y DU (Tabl 4).

Mae ein hasesiad wedi cael ei gynnal yn erbyn y llinell sylfaen amgylcheddol a nodir yn y ffynonellau hyn o wybodaeth sy'n bodoli eisoes.

Rhowch unrhyw dystiolaeth ychwanegol isod

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill yn gysylltiedig â pholisïau a chamau gweithredu'r FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin y gallem eu hystyried?

Mae adran 5 yn asesu effeithiau amgylcheddol pholisïau a chamau gweithredu'r FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin mewn cysylltiad â'r materion amgylcheddol sy'n cael eu sgrinio yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn, a lle bo hynny'n berthnasol, eu disgrifyddion cysylltiedig yn Strategaeth Forol y DU (Tabl 4)

Rhowch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill sy'n gysylltiedig â pholisïau a chamau gweithredu'r FMP drafft isod

Oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu arfaethedig a nodir yn yr Adroddiad Amgylcheddol i fonitro a/neu liniaru unrhyw effeithiau sylweddol (negyddol) tebygol yr FMPs ar yr amgylchedd?

Mae adran 6 yn manylu ar y mesurau arfaethedig ar gyfer lleihau'r effeithiau amgylcheddol negyddol sylweddol sy'n deillio o Gynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin, ar gyfer materion sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad.

Rhowch unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu arfaethedig i fonitro a/neu liniaru unrhyw effeithiau sylweddol (negyddol) tebygol yr FMPs ar yr amgylchedd

Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol mewn cysylltiad â'r Adroddiad Amgylcheddol nad ydych wedi gallu eu darparu mewn ymateb i'r cwestiynau blaenorol?

Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol mewn cysylltiad â'r Adroddiad Amgylcheddol isod

Adborth ymgynghoreion ar yr arolwg ar-lein

Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ar ein hadnodd ymgynghori ar-lein?

Bodlon iawn

Bodlon

Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

Anfodlon

Anfodlon iawn

Ddim yn gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut gallem ei wella